

# FFORWM SIROL COFNODION CYFARFOD

**DYDDIAD** Nos Iau, 12 Hydref 2017

**AMSER:** 6.30 pm – 8.30 pm

**LLEOLIAD:** Cyngor Tref Bwcle, Swyddfeydd y Cyngor, Ffordd yr Wyddgrug,  
Bwcle, Sir y Fflint, CH7 2JB

## RHAN UN

### PRESENOLDEB

#### 1. Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau

##### 1.1. Yn bresennol

###### **Cyngor Sir y Fflint:**

- |  |                       |
|--|-----------------------|
| • Prif Weithredwr                        | Colin Everett         |
| • Prif Swyddog -Llywodraethu             | Gareth Owens          |
| • Prif Swyddog – Cynllunio Sefydliadol   | Neal Cockerton        |
| • Arweinydd Cyngor Sir y Fflint          | Aaron Shotton         |
| • Cydlynnydd Ymddygiad Gwrthgymdeithasol | Gerwyn Davies         |
| • Swyddog Cefnogi Polisi a Pherfformiad  | Sam Perry - Cofnodion |

###### **Cyngorau Tref a Chymuned:**

- Cyngor Cymuned Bagillt
- Cyngor Cymuned Brychdyn a Bretton
- Cyngor Tref Bwcle
- Cyngor Cymuned Cilcain
- Cyngor Tref Cei Connah
- Cyngor Tref y Fflint
- Cyngor Cymuned Gwernymynydd
- Cyngor Cymuned Gwernymynydd
- Cyngor Cymuned Penarlâg
- Cyngor Cymuned Coed-llai
- Cyngor Tref yr Wyddgrug
- Cyngor Cymuned Mostyn
- Cyngor Cymuned Llaneurgain
- Cyngor Tref Saltney

###### **Cynrychiolwyr Eraill:**

- Brian Grew – Un Llais Cymru
- 
- 

##### 1.2. Ymddiheuriadau

###### **Cyngor Sir y Fflint:**

## FFORWM SIROL COFNODION CYFARFOD

- Prif Swyddog – Cynllunio Sefydliadol Ian Bancroft
- Prif Swyddog - Gwasanaethau Stryd a Chludiant Stephen O Jones
- Prif Swyddog – Cynllunio a'r Amgylchedd Andrew Farrow

### **Cynghorau Tref a Chymuned:**

- Cyngor Tref Caerwys
- Cyngor Tref Treffynnon

Diolchodd Gareth Owens i Gyngor Tref Bwcle am gynnal y cyfarfod a darparu'r lleoliad.

Agorodd y Cynghorydd Dave Ellis, Dirprwy Faer Cyngor Tref Bwcle, y cyfarfod a diolchodd i bawb am fynychu cyn trosglwyddo'r awenau i Martin Wright, Clerc Cyngor Tref Bwcle. Aeth Martin drwy weithdrefnau cyffredinol yr adeilad, a'r weithdrefn gwagu os oes tân, a chadeiriodd y cyfarfod.

Cytunwyd bod y cofnodion o'r cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 28 Chwefror 2017 yn gofnod cywir o'r digwyddiadau. Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

## **RHAN DAU**

### **MATERION Y CYNGOR**

#### **2. Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus / Gorchymyn Rheoli Cŵn**

Rhoddodd Gerwyn Davies drosolwg o'r Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus a fabwysiadwyd gan y Cabinet ar 26 Medi 2017, a fydd yn dod i rym ar 20 Hydref 2017. Mae pwyntiau allweddol yn cynnwys:

- Mae Cyngor Sir y Fflint wedi cytuno i roi Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus ar waith mewn perthynas â Rheoli Cŵn a Baw Cŵn oherwydd y gefnogaeth gref ar gyfer yr amodau arfaethedig.
- O 20 Hydref 2017, bydd Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus mewn perthynas a rheoli cŵn yn dod i rym ar draws Sir y Fflint a bydd yn disodli'r Gorchymyn Rheoli Cŵn sydd allan o ddyddiad. Bydd hyn yn creu ymagwedd fwy cynhwysfawr a chyson wrth ymdrin â materion megis baw cŵn, cadw cŵn ar dennyn a gwahardd cŵn o lefydd penodol.

## **FFORWM SIROL COFNODION CYFARFOD**

- Mae'r gorchymyn hwn yn gwahardd cŵn o ardaloedd chwarae ag offer plant, ardaloedd chwarae lleiniau chwaraeon wedi eu marcio ac ardaloedd hamdden ffurfiol a thir Ysgol.
- O dan y Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus, bydd rhaid cadw cŵn ar dennyn mewn mynwentydd a bydd angen i berchnogion cŵn waredu unrhyw wastraff cŵn a rhoi eu cŵn ar dennyn os bydd swyddog awdurdodedig yn dweud wrthynt am wneud hynny.
- Bydd y gorchymyn yn weithredol am gyfnod o dair blynedd.
- Bydd Rhybuddion Cosb Benodedig yn cael eu rhoi i unrhyw unigolion fydd yn euog o dorri'r gorchymyn.
- Ar hyn o bryd mae arwyddion yn cael eu creu a byddant yn cael eu codi maes o law.
- Mae gwybodaeth wedi ei anfon allan at Glercod Cyngorau Tref a Chymuned ac mae gwybodaeth ar gael hefyd ar wefan y Cyngor yn cynnwys mapiau o'r ardaloedd a effeithir.

### **Cwestiynau ac Atebion:**

#### **Ar ba dir y bydd hyn yn berthnasol?**

Bydd y gofyniad i lanhau ar ôl eich ci yn berthnasol i bob man cyhoeddus yn Sir y Fflint.

#### **Ydy hyn yn berthnasol i dir nad yw'n eiddo i Gyngor Sir y Fflint?**

Mae Cyngor Sir y Fflint wedi ymgynghori â phob Cyngor Cymuned ac Ysgol yn y sir er mwyn cael caniatâd i orfodi'r Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus ar dir y maent yn eu rheoli.

Ni fydd gorfodi'n digwydd ar dir preifat, ond fe all yn y dyfodol, os oes digon o gwynion ac ar ôl ymgynghori gyda'r perchennog tir perthnasol.

#### **Ydi Hawliau Tramwy wedi'u cynnwys?**

Ydi, mae Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn cael eu cynnwys fel tir sydd yn yr awyr agored y mae gan y cyhoedd hawl neu ganiatâd i gael mynediad iddynt.

#### **Faint yw'r rhybuddion cosb benodedig?**

Bydd Rhybuddion Cosb Benodedig o £75 yn cael eu rhoi i unrhyw unigolion fydd yn euog o dorri'r gorchymyn.

#### **Pwy fydd yn gorfodi'r Gorchymyn, ac oes gennym ni ddigon o bobl i blismona'r Gorchymyn?**

Caiff y gorchymyn ei orfodi gan unrhyw berson a awdurdodwyd gan Gyngor Sir y Fflint, gan gynnwys cwmnïau gorfodi dan gontract. Ansicr am union nifer y swyddogion awdurdodi, bydd hyn yn cwmpo o fewn cylch gwaith Prif Swyddog arall pan fydd yn cael ei weithredu. Fe wnawn ymholiadau ac adrodd yn ôl.

# FFORWM SIROL COFNODION CYFARFOD

## **A yw'r chwistrelliad pinc a ddefnyddir i amlygu gwastraff cŵn yn rhan o'r Gorchymyn?**

Mae nifer o ymgyrchoedd wedi eu cynnal cyn rhoi'r Gorchymyn ar waith ac mae hwn wedi bod yn un ohonynt.

**A fydd y gorchymyn yn ei gwneud yn drosedd i ddiystyru bagiau gwastraff cŵn?**  
Ansicr. Bydd Gerwyn Davies i wneud ymholiadau ac adrodd yn ôl i Gyngorau Tref a Chymuned.

### **Camau Gweithredu:**

Anfon dolen i'r dudalen berthnasol ar wefan y Cyngor i Gyngorau Tref a Chymuned.  
**[Sam Perry i weithredu]**

Darganfod os yw'r Gorchymyn yn ei gwneud yn drosedd i ddiystyru bagiau o wastraff cŵn ac adrodd yn ôl i Gyngorau Tref a Chymuned.

**[Gerwyn Davies i weithredu]**

### **3. Trosglwyddo Asedau Cymunedol**

Rhoddodd Neal Cockerton ddiweddariad bras ar y broses o Drosglwyddo Asedau Cymunedol a dysgu o'r profiad. Roedd y pwyntiau allweddol yn cynnwys:

- Bellach mae Sir y Fflint yn eu trydedd flwyddyn o Drosglwyddiadau Asedau Cymunedol felly dylai pawb fod yn gyfarwydd â'r broses.
- Mae nifer o Drosglwyddiadau Asedau Cymunedol wedi eu sefydlu.
- Mae 18 o drosglwyddiadau cam 2 hyd yma.
- Cyfnod Trosglwyddo Asedau Cymunedol yw 27 mlynedd.
- Mae Sir y Fflint wedi dyrannu arian o adnoddau cyfalaf ar draws y ddwy flynedd nesaf er mwyn cefnogi Trosglwyddo Asedau Cymunedol.

### **Cwestiynau ac Atebion:**

#### **Beth sy'n digwydd ar ôl y 27 mlynedd?**

Bydd yr ased yn trosglwyddo yn ôl i'r Cyngor os nad yw'r sefydliad cymunedol sy'n rhedeg yr adnodd eisiau adnewyddu'r cytundeb.

**Beth sy'n digwydd pan fydd grwpiau wedi marw allan a bydd y diddordeb wedi ei gollu?**

## **FFORWM SIROL COFNODION CYFARFOD**

Caiff hyn ei drafod / ei bigo fyny fel rhan o'r broses ymgeisio. Mae Sir y Fflint yn cymryd barn hir dymor i geisio creu cymunedau cryf lle mae'r risg o hyn yn cael ei leihau, fodd bynnag rydym hefyd yn derbyn y gallai hyn ddigwydd mewn rhai achosion ac mewn achosion o'r fath bydd yr ased yn cael ei ddychwelyd i'r Cyngor Sir er mwyn iddo benderfynu gyda'r Gymuned leol beth fyddai'r datrysiad gorau a mwyaf cost effeithiol.

**A yw Cyngor Sir y Fflint yn agored i awgrymiadau eraill o ran darparu ardal chwarae? Cafodd hyn ei drafod yn y fforwm y llynedd ond nid oes gwybodaeth bellach wedi ei anfon allan.**

Ydy. Mae'r Cyngor yn agored i unrhyw ddatrysiadau creadigol, gwahanol. Mae'r Cyngor yn fwy na hapus i gwrdd â chynrychiolwyr o Gynghorau Tref a Chymuned sydd â diddordeb mewn archwilio datrysiadau eraill. Mae darpariaeth arian cyfatebol yn dal ar gael.

**Oes rhestr gyfredol o asedau y gellir eu trosglwyddo?**

Oes, mae'r wybodaeth yma ar gael ar wefan y Cyngor bellach.

**Faint o amser mae'n arfer ei gymryd i gwblhau trosglwyddiad?**

Arferai gymryd rhwng 7 a 12 mis yn seiliedig ar y broses Trosglwyddo Asedau Cymunedol oedd yn ei lle, fodd bynnag mae'r broses wedi ei symleiddio ychydig a dylai gymryd rhwng 3 a 6 mis i gwblhau Trosglwyddiad Asedau Cymunedol gan ddefnyddio'r broses gyfredol. Gall hyn amrywio fodd bynnag, yn ddibynnol ar pa mor gyflym mae cymuned eisiau ymgysylltu / cwblhau'r trosglwyddiad.

**A fydd pob un o Drosglwyddiadau eleni yn derbyn cyfran gyfartal o'r arian sydd ar gael i gefnogi Trosglwyddiadau Asedau Cymunedol?**

Na, mae'r cyllid sydd ar gael i gefnogi Trosglwyddiad Asedau Cymuned yn dibynnu ar yr ased sy'n cael ei throsglwyddo.

**Yw Canolfan Daniel Owen Yr Wyddgrug wedi ei throsglwyddo?**

Ydy, mae wedi ei throsglwyddo ond ar brydles, nid Trosglwyddiad Ased Cymunedol.

### **Camau Gweithredu:**

Nid oedd unrhyw gamau gweithredu i'r eitem hon ar yr Agenda.

#### **4. Canllawiau Adolygiadau Cymunedau ac Ymgynghoriad y Comisiwn Ffiniau ar Adolygiadau Cymunedau**

## **FFORWM SIROL COFNODION CYFARFOD**

Rhoddodd Gareth Owens drosolwg ar y Canllawiau Adolygiadau Cymunedau ac ymgynghoriad y Comisiwn Ffiniau. Roedd y pwyntiau allweddol yn cynnwys:

- Mae dogfen ganllawiau wedi ei chyhoeddi gan Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru. Mae copi wedi ei gylchredeg i Glercod Cynghorau Tref a Chymuned.
- Mae'r ddogfen wedi ei chynhyrchu i gynorthwyo a chefnogi mwy o gysondeb yn y dull mae adolygiadau cymunedau yn cael eu cynnal gan brif Gyngorau.
- Mae'r ddogfen yn amlinellu'r prosesau statudol y dylid eu dilyn, yn adlewyrchu arfer orau a ddatblygwyd gan Gyngorau dros amser, a'r ystyriaethau y bydd y Cyngor o bosib yn dymuno eu hystyried wrth gynnal adolygiad o'r fath.
- Rhaid i'r Comisiwn gynnal adolygiadau etholaethol mewn prif Gyngorau bob deg mlynedd.
- Cynhaliodd Cyngor Sir Y Fflint adolygiad yn 2013, felly fel prif Gyngor, ni fydd rhaid cynnal yr adolygiad nesaf tan 2023/24.
- Gellir cynnal adolygiadau yn ôl disgrisiwn y Gweinidog.
- Mae adolygiad cynhwysfawr o sector Cynghorau Tref a Chymuned wedi ei gomisiynu. Does dim amserlenni pendant ynglŷn â'r adolygiad, fodd bynnag, mae'r adolygiad yn debygol o gymryd tua blwyddyn i'w gwblhau.
- Bydd ymgynghoriad y Comisiwn Ffiniau yn cau ar 21 Rhagfyr 2017.
- Gofynnwyd i'r Cynghorau Tref a Chymuned adolygu'r ddogfen Ganllawiau os nad oeddynt eisoes wedi gwneud hynny, ac i ymateb i'r ymgynghoriad.

### **Cwestiynau ac Atebion:**

**Fel rhan o'r adolygiad diweddaraf roedd awgrym ynglŷn ag uno Gwernymynydd, Nannerch a Gwernaffield i un ardal. Ydynt yn bwriadu cyfuno ardaloedd eto fel rhan o'r adolygiad hwn?**

Ansicr os ydynt yn bwriadu uno ardaloedd gyda'i gilydd fel rhan o'r adolygiad hwn. Fodd bynnag, gan bod uno cymunedau cyfagos er mwyn cyflawni cydraddoldeb etholaethol yn bryder rheolaidd i Gyngorau Tref a Chymuned gofynnodd Gareth Owen i Gyngorau Trefn a Chymuned godi hyn fel rhan o'u hymateb i'r ymgynghoriad.

**Fel rhan o'r adolygiad diwethaf fe wnaeth Cyngor Tref Yr Wyddgrug gynigion i ymgorffori'r eiddo yn Blackbrook i'r Wyddgrug o Helygain, a oes modd i chi gadarnhau beth ddigwyddodd o safbwynt hyn?**

Cadarnhaodd Gareth Owens fod y cynigion hyn wedi eu derbyn a'u hanfon at y Comisiwn Ffiniau ond dywedodd nad oedd yn sicr ym mha flwyddyn y byddai'r newidiadau hyn yn dod i rym. Bydd Gareth Owen yn adolygu ac yn adrodd yn ôl.

### **Camau Gweithredu:**

Adolygu'r ddogfen ganllawiau ac ymateb i'r ymgynghoriad.

**[Yr holl Gyngorau Tref a Chymuned i weithredu]**

Cadarnhau a dderbyniwyd y cynigion gan Gyngor Tref Yr Wyddgrug a'u darparu gyda diweddariad am y sefyllfa gyfredol.

# FFORWM SIROL COFNODION CYFARFOD

[Gareth Owens i weithredu]

## 5. Diwygio Llywodraeth Leol

Rhoddodd Colin Everett drosolwg o gynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer Diwygio Llywodraeth Leol gan gynnwys rôl Cynghorau Tref a Chymuned ar gyfer y dyfodol. Roedd y pwyntiau allweddol a drafodwyd yn cynnwys:

- Roedd yr ymgynghori yn benodol ar ddiwygio etholiadau ac mae'r cyfnod ymgynghori wedi dod i ben bellach.
- Mae Cyngor Sir Y Fflint wedi cyflwyno ymateb, mae copi o'u hymateb wedi ei gylchredeg i Gynghorau Tref a Chymuned er gwybodaeth.
- Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gynnal adolygiad sylweddol.
- Mae'r opsiwn i uno yn wirfoddol yn parhau.
- Ni wyddys yr amserlen ar gyfer yr adolygiad eto. Cyn gynted ag y bydd hwn ar gael bydd yn cael ei rannu gyda Chynghorau Tref a Chymuned
- Gwaith cenedlaethol yn mynd rhagddo ar ranbartholdeb pellach fel dewis amgen i adsefydlu llywodraeth leol.
- Aros am adolygiad ar rôl a gwerth Cynghorau Tref a Chymuned.
- Bydd angen cyd-weithio pan fydd yr adolygiad yn dod allan.

### Cwestiynau ac Atebion:

Doedd dim cwestiynau ynglŷn â'r eitem hon ar yr Agenda.

### Camau Gweithredu:

Rhannu copi o amserlen yr adolygiad gyda'r Cynghorau Tref a Chymuned pan fydd yr amserlen ar gael.

[Colin Everett / Sam Perry i weithredu]

## 6. Cynllun y Cyngor a Strategaeth Llesiant ar gyfer Sir y Fflint

Darparodd Colin Everett ddiweddariad bras am Gynllun y Cyngor. Roedd y pwyntiau allweddol yn cynnwys:

- Yn ddiweddar mae'r Cabinet wedi mabwysiadu Cynllun Cyngor ar gyfer 2017 – 2023 ac mae'r Cynllun wedi ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor. Mae copi o Gynllun y Cyngor a dolen i'r dudalen we berthnasol wedi eu cylchredeg i Glercod Cynghorau Tref a Chymuned.
- Mae Cynllun y Cyngor yn disodli'r hen Gynllun Gwella ar gyfer y Cyngor ac yn nodi chwe blaenoriaeth y Cyngor ac is-flaenoriaethau manwl ar gyfer gweithredu. Mae'r Blaenoriaethau wedi eu symleiddio a'u hail-osod ac mae'r Cyngor yn gliriach o'r effeithiau y maent am eu gwneud a sut y bydd yn mynd ati i gyflawni hynny. Mae'r chwe blaenoriaeth fel a ganlyn;
  - Cyngor Uchelgeisiol

## **FFORWM SIROL COFNODION CYFARFOD**

- Cyngor sy'n Dysgu
- Cyngor Gwyrdd
- Cyngor Sy'n Cysylltu
- Cyngor sy'n Gwasanaethu
- Cyngor Cefnogol
- Mae Cynllun y Cyngor yn cynnwys datganiadau gwirioneddol o fwriad ar gyfer y Cyngor.
- Awgrymodd Colin Everett y dylai'r Cyngorau Tref a Chymuned edrych ar Gynllun y Cyngor os nad oeddynt eisoes wedi gwneud hynny.

Darparodd Colin Everett ddiweddariad bras am Strategaeth Llesiant Sir y Fflint. Roedd y pwyntiau allweddol yn cynnwys:

- Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ddarn newydd heriol o ddeddfwriaeth a hyrwyddir gan Lywodraeth Cymru.
- Nod y ddeddfwriaeth arloesol yma yw gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru nawr ac ar gyfer yr hir dymor.
- Ategir y Ddeddf gan saith nod 'lles':
  - Cymru ffyniannus
  - Cymru wydn
  - Cymru iachach
  - Cymru fwy cyfartal
  - Cymru â chymunedau cydlynol
  - Cymru gyda diwylliant bywiog ac iaith sy'n ffynnu
  - Cymru fydol ymatebol
- Mae angen i bartneriaid sector cyhoeddus weithio gyda'i gilydd er mwyn cyflawni'r amcanion hyn.
- Y cam cyntaf ar gyfer partneriaid sector cyhoeddus o dan y Ddeddf hon oedd gwneud dadansoddiad manwl o gyflwr 'llesiant' yn y cymunedau y maent yn eu gweini drwy ddefnyddio'r holl ddata sydd ar gael. Cwblhawyd Asesiad Llesiant ar gyfer Sir y Fflint a chafodd ei gyhoeddi yn gynharach eleni.
- Yr ail gam yw cytuno ar 'Gynllun Llesiant Lleol' ar gyfer cydweithio.
- Mae BGC Sir y Fflint wedi mabwysiadu pum thema BGC yn ffurfiol. Y pum thema yw: Llesiant a Byw'n Annibynnol, Diogelwch Cymunedol, Cymunedau Gwydn, yr Economi a'r Amgylchedd.
- Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu Cynllun ar gyfer Sir y Fflint a bydd hwn yn cael ei ymgynghori arno'n fuan.
- Mae'r Cynllun i'w gymeradwyo gan y BGC a'r holl sefydliadau unigol cyn ei gyhoeddi yn gynnar fis Mai 2018.

### **Cwestiynau ac Atebion:**

Doedd dim cwestiynau ynglŷn â'r eitem hon ar yr Agenda.

### **Camau Gweithredu:**



## **FFORWM SIROL COFNODION CYFARFOD**

Cylchredeg copi o'r Cynllun Llesiant yn ogystal â dolen i'r arolwg ar-lein at y Cynghorau Tref a Chymuned cyn gynted ag y bydd y broses ymgynghori ar gychwyn.

**[Sam Perry i weithredu]**

### **7. Sefyllfaoedd Cyllidebau Cenedlaethol a Lleol**

Rhoddodd Colin Everett ddiweddariad bras ar y sefyllfa ddiweddaraf a gwybodaeth o ran sefyllfa'r gyllideb genedlaethol a lleol:

- Derbyniodd y Cyngor ei setliad dros dro ar ddydd Mawrth, 10 Hydref 2017.
- Mae'r rhagolygon dros dro yn rhoi Sir y Fflint mewn sefyllfa waeth nag a ddisgwyliwyd yn wreiddiol. Mae'r rhagolygon ar gyfer y dyfodol yn dywyll.
- Roedd y Cyngor wedi pwyso am setliad ariannol safonol a buddsoddiad ychwanegol mewn gofal cymdeithasol ac addysg. Mae gostyngiad o 0.9% yn fygythiad gwirioneddol i barhad y gwasanaethau rheng flaen hynny yr ydym ni wedi brwydro'n galed dros y blynyddoedd diwethaf i'w gwarchod.
- Ers tair blynedd yn olynol mae Cyngor Sir y Fflint, fel Cyngor sy'n cael llai o gyllid y pen dan y fformiwla ariannu, wedi datgan pam bod cynghorau yn y sefyllfa hon yn arbennig o ddiameddiffyn i effeithiau parhaus y caledi ariannol.
- Roedd Sir y Fflint wedi rhagweld bwlch ariannol o £11.7 miliwn i'r Cyngor. O ganlyniad i'r setliad hwn mae'r bwlch wedi codi £1.6 miliwn, heb unrhyw gefnogaeth genedlaethol ar gyfer gwasanaethau allweddol.
- Bydd angen i'r Cyngor feddwl llawer dros y misoedd nesaf ynglŷn â sut i fynd i'r afael â'r bwlch cyllido a chydbwysu'r gyllideb - Bydd cyfnodau heriol o'n blaenau a bydd yn rhaid gwneud penderfyniadau anodd.
- Mae'r Cyngor yn parhau i ganfod ffyrdd arloesol i arbed arian ac eisoes yn cynnig gwerth £3 miliwn o arbedion effeithlonrwydd ar gyfer y flwyddyn nesaf.
- Mae hanes blaenorol Sir y Fflint mewn gwasanaethau allweddol fel addysg, gofal cymdeithasol, tai, gwrth dlodi a'r amgylchedd yn dangos ein bod yn darparu'r hyn rydym yn dweud y byddwn yn ei wneud, fodd bynnag bydd rhaid gwneud penderfyniadau anodd dros y misoedd nesaf.
- Gwnaeth adroddiad cenedlaethol diweddar nodi Sir y Fflint fel y Cyngor sydd wedi gwella fwyaf dros y 12 mis diwethaf. Cyrhaeddiad arbennig, o ystyried y pwysau ariannol rydym yn ei wynebu.
- Mae nifer o ddiwyddiadau Ymgysylltu â'r Cyhoedd wedi eu trefnu am y gyllideb a byddant yn digwydd y mis yma. Mae gwybodaeth wedi ei anfon at Gynghorau Tref a Chymuned.
- Gofynnodd Colin Everett i bobl gofrestru i fynychu un o'r digwyddiadau hyn.

### **Cwestiynau ac Atebion:**

**Mae gwybodaeth am y Digwyddiadau Ymgysylltu wedi eu hanfon at Glerc pob Cyngor Tref a Chymuned ond a yw'r digwyddiadau hyn yn cael eu hyrwyddo yn unrhyw le arall?**

Ydy, mae'r wybodaeth yma ar gael ar wefan y Cyngor. Mae'r digwyddiadau hefyd yn cael eu hyrwyddo drwy rwydweithiau a gweithgorau amrywiol, cynhwysir gwybodaeth

## **FFORWM SIROL COFNODION CYFARFOD**

am y digwyddiadau yn y Bwletin newyddion ac mae Twitter yn cael ei ddefnyddio yn rheolaidd i helpu i'w hyrwyddo.

### **A fydd y trydydd sector yn cael ei effeithiol o ganlyniad i'r sefyllfa ariannol bresennol?**

Hyd yma, nid yw Sir y Fflint wedi gofyn i'r trydydd sector i gymryd toriad, maent wedi gweld estyniad i'w darpariaeth. Bu ymrwymiad cryf gan Sir y Fflint o ran cymorth ariannol i'r trydydd sector.

### **Camau Gweithredu:**

Cynghorau Tref a Chymuned i gofrestru i fynychu un o'r digwyddiadau Ymgysylltu â'r Cyhoedd wedi eu trefnu.

**[Yr holl Gynghorau Tref a Chymuned i weithredu]**

## **8. Adolygiad o Fforwm a Siarter y Sir**

Cynigiodd Colin Everett adolygiad ar y cyd ar gyfer Fforwm a Siarter y Sir ac awgrymodd sefydlu Grŵp Tasg a Gorffen Tasg a Gorffen er mwyn cynnal yr adolygiad. Roedd yr holl Gynghorau Tref a Chymuned oedd yn bresennol yn gefnogol i gynnal yr adolygiad ac yn cymeradwyo sefydlu Grŵp Tasg a Gorffen er mwyn cynnal yr adolygiad.

Dywedodd Bryan Grew (Cyngor Tref Yr Wyddgrug) a Martin Wright (Cyngor Tref Bwcle) wrth y Fforwm eu bod yn rhan o'r Grŵp Tasg a Gorffen gwreiddiol a mynegasant eu diddordeb mewn bod yn rhan o'r Grŵp Tasg a Gorffen bach i gynnal yr adolygiad hwn. Daeth mwy o ddatganiadau o ddiddordeb gan Alun Evans (Cyngor Cymuned Cilcain), Klaus Armstrong-Braun (Cyngor Cymuned Brychdyn a Bretton) a Cherry Evans (Cyngor Tref Saltney).

### **Cwestiynau ac Atebion:**

Doedd dim cwestiynau ynglŷn â'r eitem hon ar yr Agenda.

### **Camau Gweithredu:**

Sefydlu Grŵp Tasg a Gorffen bach i gynnal yr adolygiad. Angen ystyried taeniad daearyddol aelodau Grŵp Tasg a Gorffen er mwyn sicrhau aelodaeth o Gynghorau

## **FFORWM SIROL COFNODION CYFARFOD**

Trefn a Chymuned bach a mawr. Anfon e-bost at Gynghorau Tref a Chymuned i holi am enwebiadau'r wythnos nesaf.

**[Sam Perry i weithredu]**

Cynghorau Tref a Chymuned sydd â diddordeb i gysylltu â Sam.

**[Yr holl Gynghorau Tref a Chymuned i weithredu]**

### **9. Cynrychiolaeth Cynghorau Tref a Chymuned ar Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Sir y Fflint**

Rhoddodd Colin Everett drosolwg bras ar Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint a rhoddodd ddiweddariad am y cais am gynrychiolaeth gan Gynghorau Tref a Chymuned a rôl ddisgwyliedig y cynrychiolydd a ddewisir. Roedd y pwyntiau allweddol yn cynnwys:

- Sefydlwyd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint ar 1 Ebrill 2016 o ganlyniad i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
- Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint yn disodli Bwrdd Gwasanaethau Lleol Sir y Fflint.
- Mae BGC Sir y Fflint yn cynnwys uwch arweinwyr o nifer o sefydliadau cyhoeddus a gwirfoddol. Mae Aelodaeth y Bwrdd yn cynnwys aelodau statudol (h.y. sy'n angenrheidiol yn ôl y gyfraith - Cyngor Sir Y Fflint, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr).
- Y pedwar aelod statudol yw'r sefydliadau sy'n derbyn pleidlais o dan y ddeddf, fodd bynnag mae aelodau BGC Sir y Fflint yn cael eu trin yn gyfartal ac mae pawb yn cael yr hawl i bleidleisio.
- Gyda'i gilydd mae'r sefydliadau hyn yn gyfrifol am ddatblygu a rheoli'r Cynllun Lles ar gyfer Sir y Fflint.
- Mae saith enwebiad gan Gynghorau Tref a Chymuned wedi eu derbyn.
- Bydd dau gynrychiolydd yn cael eu dewis fel y gall o leiaf un fynd bob tro.
- Gan fod sawl un wedi eu henwebu, bydd angen dilyn proses ddewis a bydd y BGC yn ymwneud â'r broses hon.
- Bydd gwybodaeth am y broses ddewis yn cael ei gylchredeg i enwebyddion ger mwyn cael cynrychiolydd mewn lle ar gyfer cyfarfod mis Ionawr y BGC.
- Bydd rôl a chyfrifoldeb y cynrychiolydd a etholir yn cynnwys;
  - Dod yn rhan o dîm sy'n dod a gwybodaeth ac arbenigedd lleol er mwyn cynorthwyo i ddatblygu a siarad y flaenraglen waith ar gyfer y BGC.
  - Siarad gyda pheth gwybodaeth o a diddordeb mewn cymunedau lleol.
  - Mynd a barn rhwydwaith y Cynghorau Tref a Chymuned i'r BGC.
  - Hyrwyddo gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ymysg Cynghorau Tref a Chymuned a gweithredu fel dolen gyswllt rhyngddynt.
  - Cynghori ar y ffyrdd mwyaf effeithiol o ymgysylltu gyda rhwydwaith y Cynghorau Tref a Chymuned e.e. ymgynghori ffurfiol,
  - Mynychu cyfarfodydd BGC.
- Bryn Grew i barhau i fynychu cyfarfodydd tan y bydd cynrychiolydd newydd wedi eu dewis.

# FFORWM SIROL COFNODION CYFARFOD

## Cwestiynau ac Atebion:

Doedd dim cwestiynau ynglŷn â'r eitem hon ar yr Agenda.

## Camau Gweithredu:

Cylchredeg manylion y broses ddethol i enwebiadau Cyngorau Tref a Chymuned.  
**[Colin Everett / Sam Perry i weithredu]**

## RHAN TRI

### MATERION CYNGHORAU TREF A CHYMUNED

#### **10. Datblygiadau yn Theatr Clwyd - Cyngor Cymuned Llaneurgain**

Rhoddodd Colin Everett drosolwg bras o'r datblygiadau yn Theatr Clwyd. Roedd y pwyntiau allweddol yn cynnwys:

- Mae Colin Everett yn aelod o Fwrdd y Theatr ac mae'n falch iawn o'r Theatr a'r oll mae'n ei gyflawni.
- Mae'r cymhorthdal sirol yn weddol isel – mae cyfraniad y Cyngor o £730,000 yn erbyn trosiant o fwy na £5 miliwn. Pe byddai unrhyw faint o'r cymhorthdal hwn yn cael ei ddileu, fyddai'r Theatr ddim yn gweithio.
- Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gadw'r Theatr.
- Mae her ynglŷn â chyllid i helpu i gynnal y Theatr, ar hyn o bryd yn archwilio cyfleoedd ar gyfer cael cyllid gan Gyngor y Celfyddydau a ffynonellau eraill.
- Mae trafodaethau'n cael eu cynnal am y posibilrwydd o ailadeiladu'r Theatr a fyddai'n fuddsoddiad sylweddol, ond rhaid cael ymrwymiad am gyllid pellach wedi hynny.

## Camau Gweithredu:

Nid oedd unrhyw gamau gweithredu i'r eitem hon ar yr Agenda.

## RHAN PEDWAR

### UNRHYW FATER ARALL

#### **Cludiant Cymunedol**

Gofynnodd Cyngor Cymuned Penyffordd am ddiweddariad am y Gwasanaeth Bws Cludiant Cymunedol er mwyn gweld pryd fydd yn cael ei roi ar waith. Ymddiheurodd Colin Everett am yr oedi, roedd materion gweithredol eraill wedi gorfod cymryd blaenoriaeth, ond roedd gwaith yn mynd rhagddo.

## Camau Gweithredu:

## FFORWM SIROL COFNODION CYFARFOD

Darparu diweddariad am sefyllfa gyfredol ac amserlen weithredu i Gyngor Cymuned Penyffordd a Chyngor Tref Bwcle.

[Stephen O' Jones i weithredu]

### **Cyfarfodydd Fforwm Sirol**

Awgrymodd Cyngor Tref Bwcle y dylid gadael eitemau "Unrhyw Fater Arall" allan o gyfarfodydd yn y dyfodol a chytunodd yr holl Gyngorau Tref a Chymuned oedd yn bresennol ar hyn.

### **Camau Gweithredu:**

Dileu'r adran Unrhyw Fater Arall oddi ar Agendau'r dyfodol.

[Sam Perry i weithredu]

Cytunwyd y byddai Cofnodion y Cyfarfod yn cael eu cylchredeg i Gyngorau Tref a Chymuned o fewn 2 wythnos wedi pob cyfarfod.

[Sam Perry i weithredu]

Gwahodd Prosiect Awyr Dywyll AHNE i fynychu / rhoi cyflwyniad mewn Fforwm Sirol yn y dyfodol.

[Sam Perry i weithredu]

## CYFARFODYDD I DDOD

Daeth gwirfoddolwyr i Westeio / Cadeirio cyfarfodydd y dyfodol gan Gyngor Tref Saltney, Cyngor Tref Cei Connah, Cyngor Cymunedol Coed-Llai a Chyngor Tref y Fflint.

**Dyddiad:** Nos Fercher 28 Chwefror 2018

**Amser:** 6.30pm - 8.30pm

**Yn Gwesteio / Cadeirio:** Cyngor Tref Saltney

**Lleoliad:** Canolfan Gymunedol Douglas Place, Woodhall Avenue, Saltney, CH4 8NB.

**Dyddiad:** Nos Fawrth 19 Mehefin 2018

**Amser:** 6.30pm - 8.30pm

**Yn Gwesteio / Cadeirio:** Cyngor Cymuned Coed-llai a Phontblyddyn

**Lleoliad:** Canolfan Gymunedol Coed-llai, King Street, Coed-llai, CH7 4SB

**Dyddiad:** Nos Iau 4 Hydref 2018

**Amser:** 6.30pm - 8.30pm

**Yn Gwesteio / Cadeirio:** Cyngor Tref Cei Connah

**FFORWM SIROL  
COFNODION CYFARFOD**

**Lleoliad:** Swyddfeydd Cyngor y Dref, Adeilad y Cei, Ffordd Fron, Cei Connah, Sir y Fflint, CH5 4PJ